CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): asesiad o'r effaith ar y Gymraeg

Asesiad o'r effaith ar y Gymraeg Bil ar gyfer diwygio'r Senedd.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 30 Hydref 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 30 Hydref 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/bil-senedd-cymru-aelodau-ac-etholiadau-asesiad-or-effaith-ar-y-gymraeg-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Cyflwyniad**

**Cyfeirnod**

**Cysylltiad â Cymraeg 2050**

**Effaith ar y Gymraeg**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/bil-senedd-cymru-aelodau-ac-etholiadau-asesiad-or-effaith-ar-y-gymraeg-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

Cymraeg 2050 yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i'r strategaeth newydd, gyda'r targed o filiwn o siaradwyr wedi'i gynnwys yn ei Rhaglen Lywodraethu. Mae iaith Gymraeg ffyniannus hefyd wedi'i chynnwys yn un o'r 7 nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae gennym hefyd rwymedigaeth statudol i ystyried yn llawn effeithiau ein gwaith ar y Gymraeg. Mae hyn yn golygu y dylai unrhyw bolisi gan Lywodraeth Cymru ystyried sut mae ein polisïau'n effeithio ar yr iaith a'r rheini sy'n ei siarad. Mae tair thema gydgysylltiedig i **strategaeth Cymraeg 2050**:

## Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

- Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu
- Y blynyddoedd cynnar
- Addysg statudol
- Addysg ôl-orfodol
- Y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau

## Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg

- Y gweithle
- Gwasanaethau
- Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/bil-senedd-cymru-aelodau-ac-etholiadau-asesiad-or-effaith-ar-y-gymraeg-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

- Cymuned a’r economi
- Diwylliant a’r cyfrynga
- Cymru a’r byd ehangach
- Technoleg ddigidol
- Seilwaith ieithyddol
- Cynllunio ieithyddol
- Gwerthuso ac ymchwil

The headings under each theme outline the scope of activities that can affect the language.

As a general rule, if your policy has the potential to impact on people, it will impact in some way on Welsh speakers and therefore on the Welsh language.

1. Welsh Language Impact Assessment reference number (completed by the Welsh Language Standards Team, email: **Safonau.Standards@gov.wales**): 3 September 2023.
2. Does the proposal demonstrate a clear link with the Welsh Government’s strategy for the Welsh language? – **Cymraeg 2050 A million Welsh speakers** and the related **Work Programme for 2021-2026? Cymraeg 2050 work programme 2021-2026**.

There are links between the proposals in the legislation relating to increasing the size of the Senedd and constituency boundaries and the Welsh Government’s strategy for the Welsh language.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/bil-senedd-cymru-aelodau-ac-etholiadau-asesiad-or-effaith-ar-y-gymraeg-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# 1. Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

A gwblhawyd gan Dîm Safonau'r Gymraeg, e-bost: **Safonau.Standards@gov.wales**: 3 Medi 2023.

# 2. A yw'r cynnig yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg?

**Cymraeg 2050 Miliwn o siaradwyr Cymraeg** a'r **Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2021-2026**.

Mae cysylltiadau rhwng y cynigion yn y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chynyddu maint y Senedd a ffiniau etholaethau a strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg.

## Maint

Yn gyffredinol, bydd mesurau i gynyddu maint y Senedd yn gwella ei allu i graffu ar bolisi a deddfwriaeth, gan gynnwys mewn perthynas â llesiant diwylliannol a'r Gymraeg. Bydd y Senedd estynedig yn parhau i weithredu'n ddwyieithog.

## Ffiniau

Mae cysylltiad clir rhwng agweddau ffiniau'r ddeddfwriaeth a'r strategaeth Cymraeg 2050. Mae'r Rhaglen Waith ar gyfer enwau lleoedd Cymru 2021-26 hefyd wedi'i chynnwys yn y ddogfen **Cymraeg 2050: Cynllun gweithredu**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/bil-senedd-cymru-aelodau-ac-etholiadau-asesiad-or-effaith-ar-y-gymraeg-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**strategaeth y Gymraeg 2023 i 2024**. Yn ein Rhaglen Lywodraethu, rydym yn ymrwymo i weithio i ddiogelu enwau lleoedd Cymru, ac mae hyn wedi'i atgyfnerthu gan y Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru. Bydd uned seilwaith ieithyddol yn gyfrifol am bolisi Llywodraeth Cymru ar enwau lleoedd Cymraeg.

Mae enwi etholaethau'r Senedd yn rhan ganolog o adolygiadau'r LDBCW o ffiniau etholaethau'r Senedd, ac mae'r Bil yn gosod gofynion ar y LDBCW (wedi'i ailenwi) i ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff (y ffordd dderbyniol o sillafu ac ysgrifennu geiriau) o'r enwau Cymraeg arfaethedig ar gyfer etholaethau'r Senedd neu newidiadau arfaethedig i enwau Cymru ar etholaethau'r Senedd (o ystyried cyfrifoldeb y Comisiynydd **dros ddarparu cyngor ar ffurf safonol enwau lleoedd Cymru**).

Efallai y bydd egwyddorion gwerthfawr o ffurfiau safonol enwau lleoedd Cymru y gellir eu cymhwyso i enwau etholaethau newydd y Senedd. Bydd hyn yn golygu bod yr enwau Cymraeg ar gyfer etholaethau'r Senedd yn gywir ac yn adlewyrchu rhai confensiynau (er enghraifft, pryd y dylid defnyddio cysylltnodau, a ddylid ysgrifennu enwau fel un gair neu fwy ac ati).

## 3. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg ac eglurwch sut byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau i'r Gymraeg

Sut bydd y cynnig yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg o bob oed (effeithiau cadarnhaol a/neu niweidiol)? Dylech nodi eich ymatebion i'r canlynol wrth ateb y cwestiwn hwn, ynghyd ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/bil-senedd-cymru-aelodau-ac-etholiadau-asesiad-or-effaith-ar-y-gymraeg-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffiniau

Fel sy’n cael ei amlinellu o dan adran ‘prawfesur gwledig’ yr Asesiad Effaith Integredig, efallai y bydd rhai cymunedau gwledig yn poeni y gallai adolygiadau o ffiniau’r Senedd yn y dyfodol arwain at newidiadau sylweddol ac y gallai cymunedau Cymraeg gael eu rhannu rhwng etholaethau’r Senedd, a allai wedyn effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg yn eu cymunedau a thanseilio'r iaith. Fodd bynnag, fel rhan o’r adolygiad ‘paru’ o ffiniau (cyn etholiad Senedd 2026) gall y LDBCW (wedi’i ailenwi) ystyried “unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai’n cael eu torri gan y parau arfaethedig”. Hefyd, wrth ystyried a ddylid gwneud newidiadau i etholaethau’r Senedd fel rhan o’r adolygiad sydd i’w gynnal cyn etholiad 2030 (a hefyd mewn adolygiadau dilynol), gall y LDBCW (wedi’i ailenwi) hefyd ystyried “unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai’n cael eu torri gan newidiadau o’r fath”. Mewn **adolygiadau blaenorol o ffiniau llywodraeth leol**, fe wnaeth y LDBCW ystyried y Gymraeg fel agwedd ar gysylltiadau lleol y dylid ei hystyried.

Mae’r LDBCW (wedi’i ailenwi) yn ddarostyngedig i Safonau’r Gymraeg. Mae wedi cyhoeddi'r **safonau sy’n berthnasol iddo a sut y bydd yn cydymffurfio** â nhw mewn dogfen ar ei wefan. O ganlyniad, o ran cymryd rhan mewn adolygiadau o ffiniau’r Senedd a hwyluso defnyddio’r Gymraeg, bydd unigolion yn gallu cyfrannu at yr adolygiadau drwy gyfrwng y Gymraeg, er enghraifft drwy gyflwyno ymatebion i ymgynghoriadau neu siarad mewn gwrandawiadau cyhoeddus. Bydd yr holl ddogfennau canllaw ac adroddiadau hefyd yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Ar ôl cwblhau’r adolygiadau, mae’n bwysig nodi y bydd y rheoliadau sy’n gweithredu etholaethau newydd y Senedd yn y gyfraith ar ôl cwblhau adolygiadau o ffiniau yn cael eu gwneud yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae’r Gorchymyn sy’n nodi etholaethau presennol y Senedd - The **Gorchymyn canlyniadol Etholaethau Seneddol a Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad (Cymru) 2006** (fel y’i diwygiwyd) - yn Saesneg yn unig. Felly, bydd enwau Cymraeg etholaethau’r Senedd yn bodoli’n gyfreithiol am y tro cyntaf, sy’n cael

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/bil-senedd-cymru-aelodau-ac-etholiadau-asesiad-or-effaith-ar-y-gymraeg-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ei hystyried yn garreg filltir bwysig.

Yn ymarferol, fodd bynnag, mae eu henwau Cymraeg a Saesneg wedi cyfeirio at etholaethau presennol y Senedd. Mae’r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer parhau â hyn, gan fod yn rhaid i’r LDBCW, fel rhan o’i adolygiadau, gynnig enwau etholaethau yn Gymraeg ac yn Saesneg, neu os yw enw’n dderbyniol yn y ddwy iaith, dylent gynnig yr un enw hwnnw. Yn y senario lle mae enwau gwahanol yn y Gymraeg a’r Saesneg, dylid cynnwys y ddau enw yn fersiynau Cymraeg a Saesneg yr adroddiadau y maent yn eu cyhoeddi fel rhan o’r adolygiad. Bydd hyn yn galluogi etholwyr i ystyried yn haws y dull a ddefnyddiwyd i adnabod yr enwau etholaethau a argymhellir yn y ddwy iaith.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/bil-senedd-cymru-aelodau-ac-etholiadau-asesiad-or-effaith-ar-y-gymraeg-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.